

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____

Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn am y Nadolig

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Mathew 1: 18-25



ADNOD
ALLWEDDOL
Mathew 1: 21

Gofynnwch am
help i chwilio am
yr adnod hon.

Stori 1 Joseff a'r Angel

Roedd hi'n gyfnod o ddigwyddiadau annisgwyl yn hanes Mair a Joseff. Roedden nhw'n bwriadu priodi, ond un diwrnod, dywedodd Mair wrth Joseff ei bod yn disgwyl babi. Gwyddai Joseff nad ef oedd y tad, felly, er ei fod yn caru Mair yn fawr iawn, penderfynodd na fyddai'n ei phriodi.



C Cwblhewch y canlynol i gael gwybod beth ddigwyddodd wedyn.

Un noson, cafodd Joseff _____ (Ysgrifennwch llythyren gyntaf pob llun)



2

C Gosodwch y llythrennau yn eu trefn gywir.

Ymddangosodd **ng l e a** _____ yr
r A l g y w d d _____ a siaradodd
â Joseff.

Dywedodd yr angel, "Paid ag ofni cymryd Mair yn wraig i ti, oherwydd mae'r Baban wedi ei genhedlu o'r Ysbryd Glân." Roedd hyn yn golygu nad dyn oedd tad y Baban – Mab Duw oedd Hwn!



6

C Mab pwy oedd y Plentyn?

M _ _ _ D _ _ _

4

Dywedodd yr angel wrth Joseff y dylai roi enw arbennig i'r Baban, sef Iesu. Mae'r enw hwn yn un arbennig oherwydd ei ystyr yw 'Gwaredwr'.

C Lliwiwch y geiriau a lefarodd yr angel wrth Joseff.

“Gelwi Ef Iesu, am mai

Ef a wareda
Ei bobl oddi
wrth eu
pechodau.”

5



Dros 30 mlynedd yn ddiweddarach, bu farw Iesu ar y groes. Oherwydd iddo Ef farw, gallwn ni dderbyn maddeuant a chael ein hachub oddi wrth ein pechodau.

Pan ddeffrodd Joseff o'i freuddwyd, ufuddhaodd i orchymyn Duw a phriododd Mair. Roedd Joseff yn fodlon ymddiried yn Nuw, er y byddai llawer yn gwrthod credu mai Mab Duw oedd y Baban mewn gwirionedd.

C Beth wnaeth Joseff ar ôl iddo ddeffro?

_____ Mair.

Roedd hwn yn gyfnod o ddigwyddiadau annisgwyl i Mair a Joseff – Mair yn disgwyl babi ac angel yn ymddangos i Joseff! Roedd Mair a Joseff yn barod i wrando ar Dduw ac ufuddhau Iddo ym mhob dim a ddigwyddodd. Ydyn ni'n barod i wneud yr un peth?

3